

**Y DRETH GYNGOR
FFURFLEN GAIS AM
OSTYNGIAD I BOBL MEWN YSBYTY,
CARTREF GOFAL/NYRSIO**



EICH ENW A'CH CYFEIRIAD:

Gwasanaethau Refeniw
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NA

Rhif ffôn: (01352) 704848

Os oes angen i chi gysylltu â ni, rhowch
gyfeirnod eich cyfrif

At ddibenion y Dreth Gyngor, nid yw person sy'n cael gofal mewn ysbyty, cartref gofal neu gartref nyrsio yn cael ei ystyried fel preswlydd yn yr eiddo roedd yn byw ynddo cyn symud i'r ysbyty neu'r cartref. Caiff ei 'ddiystyru at ddibenion gostyngiad'.

Mae'n bosibl, felly, y gallwch hawlio gostyngiad yn swm y Dreth Gyngor rydych yn ei dalu, gan ddibynnu ar nifer y bobl eraill sy'n byw acw.

Os yw eiddo'n cael ei adael yn wag gan fod y person olaf i fyw ynddo'n awr yn breswlydd hirdymor mewn ysbyty, cartref gofal neu gartref nyrsio, mae'r eiddo wedi'i eithrio rhag taliadau'r Dreth Gyngor.

Gallwn benderfynu a fedrwch chi hawlio'r gostyngiad hwn os wnewch chi lenwi, llofnodi a dychwelyd y ffurflen hon i'r cyfeiriad uchod.

Llenwch y ffurflen mewn **INC DU**

Os oes angen unrhyw help neu gyngor arnoch i lenwi'r ffurflen hon mae croeso i chi ymweld ag un o'n Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu ym Mwcle, Y Fflint, Cei Connah neu Dreffynnon (oriau agor fel y'u hysbysebiri)

A	MANYLION EICH CARTREF
----------	------------------------------

1. Rhowch enw llawn pawb sy'n 18 oed a drosodd sy'n byw acw fel arfer, gan gynnwys y person sydd mewn ysbyty, cartref preswyl neu gartref nyrsio. Os yw'r eiddo'n wag a neb yn byw ynddo gan fod y person olaf i fyw ynddo'n awr yn breswlydd hirdymor mewn ysbyty, cartref gofal neu gartref nyrsio, ticiwch y blwch yng Nghwestiwn 2.

Teitl	Enw cyntaf	Cyfenw

2. Os yw'r eiddo'n wag ar hyn o bryd a neb yn byw yno, ticiwch y blwch.

B	Y PERSON SYDD MEWN YSBYTY, CARTREF GOFAL/NYRSIO
----------	--

3 Rhowch enw llawn y person sydd mewn ysbyty, cartref gofal neu gartref nyrsio.

Teitl	Enw cyntaf	Cyfenw

4. Ydi'r person uchod yn bwriadu dychwelyd i'r eiddo?

Ydi

Nac ydi

C	DATGANIAD
----------	------------------

Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir. Os wyf yn cael Gostyngiad Gofal Preswyl neu os yw'r eiddo'n cael ei eithrio rhag taliadau'r Dreth Gyngor, rwy'n cytuno i ddweud wrth Gyngor Sir y Fflint os yw person sy'n cael gofal yn dychwelyd i'r eiddo, neu os bydd ei amgylchiadau'n newid .

Eich llofnod

Dyddiad:

Eich enw llawn (printiwch)

Eich perthynas â'r person sy'n cael gofal

Eich rhif ffôn

(_____)

Hoffech chi dderbyn bil y dreth gyngor drwy e-bost?

Hoffwn*

Na hoffwn

*Cyfeiriad e-bost:

Dylech roi'r ffurflen amgaeedig i'r ysbyty neu'r cartref gofal/nyrsio er mwyn i rywun yn y fan honno lenwi Adran D. Gofynnwch am gael y ffurflen yn ôl er mwyn i chi ei hanfon i'r Cyngor.

**Y DRETH GYNGOR
FFURFLEN GAIS AM
OSTYNGIAD I BOBL MEWN YSBYTY, CARTREF
GOFAL/NYRSIO**

D

DATGANIAD GAN YSBYTY NEU GARTREF PRESWYL/NYRSIO

Person a awdurdodwyd gan yr ysbyty neu'r cartref preswyl/nyrsio ddylai lenwi'r adran hon

Enw a chyfeiriad cartref y person sy'n aros yn yr ysbyty, y cartref preswyl neu'r cartref nyrsio.

Enw a chyfeiriad yr ysbyty, y cartref preswyl neu'r cartref nyrsio.

Ydi'r person dan sylw'n glaf yn y ganolfan hon?

Ydi	<input type="checkbox"/>	Nac ydi	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Os 'ydi' nodwch y dyddiad y daeth i'r ganolfan fel claf

Eich llofnod _____ Dyddiad: _____

Eich enw (printiwch) _____

Eich statws/swydd _____

Eich rhif ffôn _____

DS Anfonwch y ffurflen amgaeedig at y person sy'n gwneud y cais hwn. Ni chaiff eich datganiad ei ddefnyddio at unrhyw ddiben ar wahân i benderfynu a ellir rhoi gostyngiad Treth Gyngor. Os ydych am godi tâl am lofnodi'r datganiad hwn, rhaid i chi hawlio hwnnw gan eich claf.

Hysbysiad Preifatrwydd

Bydd Cyngor Sir Y Fflint yn defnyddio'r wybodaeth byddwch yn ei rhoi ar y ffurflen hon, ac unrhyw dystiolaeth ategol y byddwch yn ei ddarparu er mwyn asesu eich rhwymedigaethau o ran Treth y Cyngor. Mae hyn yn angenrheidiol o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a'r holl reoliadau perthnasol eraill sy'n ymwneud ag asesiad Treth Y Cyngor.

Byddwn yn cadw eich data dros y cyfnod y byddwch yn atebol i dalu Treth Y Cyngor ac am gyfnod o 7 mlynedd wedi i'ch rhwymedigaeth i dalu Treth y Cyngor ddod i ben.

Mae'n bosib y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda gwasanaethau eraill y Cyngor er mwyn sicrhau bod ein cofnodion yn gyfredol, er mwyn gwella safon y gwasanaethau rydym yn eu darparu, ac i berfformio unrhyw un o'n dyletswyddau statudol, gan gynnwys dyletswyddau gorfodi.

Efallai y bydd Cyngor Sir y Fflint yn gwirio'r wybodaeth rydych wedi'i darparu, neu wybodaeth amdanoch chi y mae rhywun arall wedi'i darparu, â gwybodaeth arall sydd gennym. Efallai y byddwn hefyd yn cael gwybodaeth amdanoch gan drydydd parti, neu yn rhoi gwybodaeth iddynt er mwyn:

- sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir
- atal neu ganfod troseddau
- asesu neu gasglu unrhyw dreth neu unrhyw ardrethi tebyg
- diogelu arian cyhoeddus.

Os ydych o'r farn bod Cyngor Sir y Fflint wedi cam-ddefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch anfon cwyn at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ymweld â'u gwefan neu drwy ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.

I gael rhagor o wybodaeth am sut y mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, gweler yr hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan -

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx>